NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Abladiad laser drwy'r croen wedi'i arwain gan ddelweddau ar gyfer tiwmorau sylfaenol ac eilaidd yr afu/iau

16 Mai 2024

Nid oes digon o dystiolaeth ynglŷn â pha mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio yn y tymor hwy. Felly gellir ond ei wneud gyda threfniadau arbennig. Mae hyn yn golygu y byddwch yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau.

Gall tiwmorau'r afu/iau ddechrau yn yr afu/iau (sylfaenol) neu ledaenu iddo o ran arall o'r corff (eilaidd). Yn y driniaeth hon, caiff ffibrau optegol tenau eu gosod drwy'r croen gan ddefnyddio nodwydd denau ac i mewn i diwmor yr afu/iau. Mae'r ffibrau'n cyflwyno ynni laser am sawl munud, sy'n cynhesu meinwe'r afu/iau nes iddo gael ei ddinistrio (abladiad laser). Defnyddir arweiniad ar ffurf delweddau (fel uwchsain) i wirio safle'r ffibrau ac i fonitro'r driniaeth. Y nod yw dinistrio'r tiwmor.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**
Dylech fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eich gofal.

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio risgiau a manteision y driniaeth hon ac egluro sut y'i gwneir. Dylai drafod eich opsiynau a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylai gynnig rhagor o wybodaeth i chi am y driniaeth. Gellir cynnwys eich teulu neu'ch gofalwyr yn y broses os hoffech hynny, neu os bydd angen eu cynnwys.

Gofynnir i chi benderfynu a ydych yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dysgwch ragor am roi cydsyniad i driniaethau ar wefan y GIG.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**
- Faint o apwyntiadau y bydd eu hangen arnaf?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- A fydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?

- Beth fydd yn digwydd os na fydd yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall tudalen we y GIG ar ganser yr afu/iau fod yn lle da i gael gwybod mwy.

- Mae gwybodaeth NICE am ganllawiau IechydTech yn esbonio beth yw IechydTech a sut rydym yn eu hasesu.
- Mae gwybodaeth NICE am argymhellion ar gyfer IechydTech yn esbonio'r hyn y mae trefniadau arbennig yn ei olygu.

Gall y Ymddiriedolaeth Afu Prydain, 0800 652 7330, roi cyngor a chymorth i chi

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

ISBN: 978-1-4731-8981-2